

Astudiaeth achos Ailgylchu yn y Gweithle: addysg bellach

Coleg Sir Benfro, Hwlffordd

Cefndir

Coleg Sir Benfro yw darparwr mwyaf y sir o amrywiaeth eang o addysg a hyfforddiant ôl-16, yn gweithredu dros 3 safle. Mae gan y Coleg tua 2,000 o ddysgwyr llawn-amser a 12,000 o ddysgwyr rhan-amser. Yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth traddodiadol mae gan y prif gampws yn Hwlffordd atriwm eang (gyda chonsesiynau (Starbucks) a siopau bwyd), gweithdai, ystafelloedd celf, salonau a bwyty ynghyd â cheginau hyfforddi.



Darlun: Coleg Sir Benfro

Rhoi ailgylchu yn y gweithle ar waith

Caiff gwastraff ac ailgylchu'r Coleg ei gasglu gan LAS Recycling, ac mae gwastraff bwyd a gwydr yn cael ei gasglu gan Gyngor Sir Penfro. Mae yna hefyd gywasgwr cardbord a gwasanaeth rhwygo papur ar wahân. Fel cyfranogwr yn rhaglen adrodd Sero Net Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus mae'r Coleg yn ceisio gostyngiadau parhaus mewn allyriadau carbon. Mae lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy yn rhan allweddol o hynny.

“

Mae Coleg Sir Benfro wedi bod yn gweithio'n frwd tuag at ein huchelgais carbon sero net ac mae cynyddu ailgylchu a lleihau gwastraff wedi bod yn rhan allweddol o hynny. Rhoddodd y newid yn y ddeddfwriaeth gwahanu gwastraff ffocws o'r newydd i ni ar wastraff, sydd wedi cael effaith lwyddiannus.”

Emma Thomas

Rheolwr Iechyd, Diogelwch, Cynaliadwyedd a Risg



Darlun: Biniau ailgylchu

Ymateb i'r gyfraith ailgylchu yn y gweithle

Cyn y newid yn y gyfraith cynhaliwyd archwiliad gwastraff ar y safle ac anfonwyd y manylion at LAS Recycling. Daeth cyngor yn ôl yn nodi pa ddeunyddiau / eitemau y gellid eu hailgylchu a thrwy ba ffrwd. Llywiodd hyn y gwaith o gynhyrchu arwyddion penodol i'r safle a phosteri penodol yn hysbysu am y newid uwchben biniau. Mae'r newid i wahanu'n llawn wedi arwain at fwy o finiau gwastraff bwyd ac mae bagiau leinio'r biniau wedi'u lliwio fesul ffrwd.



Darlun: Set o finiau mewnol

Didoli ychwanegol i wella ansawdd deunyddiau

Mae'r Coleg yn defnyddio cwmni glanhau contract (Solo Service Group) sy'n gyfrifol am wagio biniau a gosod bagiau leinio newydd. Bydd staff Solo yn didoli yn y ffynhonnell wrth wagio biniau mewnol i gael gwared ar halogyddion gweladwy yn yr ailgylchu. Roedd y cyfrifoldebau ychwanegol hyn wedi'u cynnwys ym manyleb y contract cyn i'r gyfraith newid.



Darlun: Storfa biniau allanol

Ailgylchu cost-effeithiol mewn mannau awyr agored

Mae sicrhau cydymffurfiaeth mewn ardaloedd allanol yn her. Mae biniau sbwriel ailgylchu cymysg wedi'u defnyddio at ddiben newydd bellach yn targedu cartonau plastig a metel, ochr yn ochr â biniau sbwriel cyffredinol. Fe wnaeth defnyddio biniau presennol at ddiben newydd, ynghyd â rhodd o finiau sbwriel diangen gan Bluestone Resort,



Darlun: Bin ailgylchu allanol wedi'i addasu at ddiben newydd

Effaith

Cynhyrchu a rheoli gwastraff

Fel rhan o adrodd sero net sector cyhoeddus y Coleg, mae deilliannau gwastraff ac ailgylchu ar draws y safle cyfan yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn flynyddol (gan ddefnyddio data misol). Mae'r tabl hwn yn dangos sut mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu dros y cyfnod y gweithredwyd y newid yn y gyfraith.

Cyfnod amser	Cyfradd ailgylchu
Awst – Rhagfyr 2023	43%
Awst – Rhagfyr 2024	55%

Mentrau cyfredol

Mae camau gweithredu a mentrau ehangach i ysgogi newid cadarnhaol mewn ymddygiad, e.e. lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu yn cynnwys:

- Codi tâl ychwanegol am gynwysyddion tecawê, ond nid oes unrhyw gost ychwanegol am yr un pryd o fwyd a fwyteir i mewn gan ddefnyddio platiau a chyllyll a ffyrc
- Cymhellion pris ar gwpanau (coffi) y gellir eu hailddefnyddio
- Adolygu ac optimeiddio lleoliadau biniau

Mae polisi cyfathrebu cynhwysfawr wedi bod yn allweddol i gyflawni'r newidiadau ailgylchu. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys e-byst dysgwyr, baneri gwybodaeth ar sgriniau, eiriolaeth trwy lysgenhadon cynaliadwyedd dysgwyr, cynnwys modiwl carbon sero net ar gyfer pob dysgwr amser llawn lefel 3

Y BUSNES O
AILGYLCHU
CYMRU

THE BUSINESS
OF RECYCLING
WALES



WRAP
CYMRU

Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o

fyw

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y Gyfraith Ailgylchu yn y
Gweithle, anfonwch e-bost atom CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

[Y Busnes o Ailgylchu](#)